Hyrwyddo dewis a gwerth
i bob cwsmer nwy a thrydan

# Diogelu busnesau

**Taflen ffeithiau 110** 21.11.11 www.ofgem.gov.uk

Mae Ofgem yn cynnig diwygiadau mawr i'r farchnad ynni annomestig er mwyn diogelu busnesau yn well. Rydym yn cynnig cyflwyno safonau ymddygiad gorfodadwy â chosbau ariannol, cynllun achredu ar gyfer codau ymddygiad broceriaid ynni a chamau i sicrhau nad yw cyflenwyr yn gwrthwynebu'n afresymol fusnes yn eu gadael.

## Rôl Ofgem

Ein prif amcan yw diogelu buddiannau pob cwsmer ynni, nawr ac yn y dyfodol. Ym mis Mawrth 2011, gwelsom fod cystadleuaeth ledled y farchnad yn cael ei llesteirio gan gyfuniad o ymddygiad gwael ymhlith cyflenwyr, diffyg tryloywder a diffyg diogelwch i fusnesau.

Ym mis Tachwedd 2011, cyflwynwyd ein dewis fodel i fynd i'r afael â'r pryderon a godwyd gan fusnesau - yn ogystal â'n diwygiadau manwerthu eraill gan gynnwys symleiddio tariffau cwsmeriaid a llacio gafael y Chwe Phrif gyflenwr ynni ar y farchnad trydan cyfanwerthol. Mae rhagor o wybodaeth am y rhain ar gael yn y daflen ffeithiau: "Marchnadoedd manwerthu: adolygiad a chynigion ar gyfer gwella."

## Yr angen am ddiwygiadau

Canolbwyntiodd ein Hadolygiad o'r Farchnad Fanwerthu ym mis Mawrth eleni ar asesu cynnydd ein diwygiadau cynharach a roddwyd ar waith fel rhan o'n Hymchwiliad i Gyflenwadau Ynni 2008. Roedd hyn yn cynnwys edrych ar ba mor dda roedd ein dulliau diogelu yn gweithio i gwsmeriaid microfusnesau (y rheini sy'n cyflogi llai na 10 o gyflogeion) a ph'un a oedd cyflenwyr yn dilyn y Safonau Ymddygiad gwirfoddol wrth ymdrin â chwsmeriaid busnes.

Dangosodd ein gwaith monitro nad oedd rhai materion a nodwyd yn flaenorol wedi gwella'n sylweddol. Felly rydym wedi edrych yn fanwl ar weithgareddau cyflenwyr ac rydym yn cynnig diwygiadau mewn pedwar maes allweddol:

- Ehangu dulliau diogelu i fusnesau bach mwy (y rheini â llai na 50 o gyflogeion)
- Ystyried cymryd camau gorfodi yn erbyn cyflenwyr nad ydynt yn ymddwyn yn deg tuag at fusnesau sy'n ceisio newid cyflenwr
- Gweithredu mewn perthynas â chyfryngwyr trydydd parti
- Safonau Ymddygiad cadarnach ac ehangach i roi mwy o hyder i ddefnyddwyr

## Y farchnad ynni annomestig

Mae'r farchnad ynni annomestig yn wahanol iawn i'r farchnad ddomestig. Mae llawer mwy o gyflenwyr, mae contractau fel arfer ar gyfer tymor penodol ac mae llawer yn defnyddio broceriaid i'w helpu i lywio'r farchnad. Cynlluniwyd cynigion ein hymgynghoriad i helpu cwsmeriaid busnes i gael y fargen orau. Yn benodol, darparu gwybodaeth well iddynt ym mhob un o'r tri cham yng nghylch oes eu contract ynni: pan fyddant yn chwilio am y fargen orau, yn cytuno ar gontract ac yn trosglwyddo iddo. Rydym hefyd yn bwriadu gwneud mwy i helpu cwsmeriaid busnes i ddeall eu hawliau a sut mae'r farchnad ynni'n gweithio.

## Ein cynigion

### Diogelu cwsmeriaid busnes llai

Rydym wedi cael cefnogaeth i'n cynnig i ddiogelu nid yn unig microfusnesau ond busnesau bach hefyd. Rydym yn ymgynghori ar ddiffiniad newydd o 'fusnes bach' i'w ehangu i'r rheini â llai na 50 o gyflogeion a throsiant blynyddol nad yw'n fwy na 10 miliwn ewro.

Cynigiwn hefyd adolygu'r cymal treigl yn ein hamod trwydded presennol. Mae hyn yn dilyn pryderon a godwyd gan grwpiau defnyddwyr ac eraill y gallai busnesau bach wynebu costau uwch am fod gan gyflenwyr ar hyn o bryd yr hawl i ymestyn - neu dreiglo - contractau yn awtomatig. Mae angen gwneud rhagor o waith o ran pwy y mae'r drwydded yn ei ddiogelu cyn y gallwn wneud hyn.

### Gwrthwynebu trosglwyddo cyflenwad

Rhan hanfodol o'n marchnad ynni yw gallu cwsmer i newid cyflenwr pan fydd yn dod o hyd i fargen well. Rydym wedi canfod nad yw hyn yn gweithio cystal ag y dylai yn y farchnad annomestig. Byddwn yn cyhoeddi llythyr agored yn nodi'r glir sut y disgwyliwn i gyflenwyr ymddwyn pan fydd cwsmer yn ceisio trosglwyddo. Os bydd cyflenwyr yn torri amodau ein trwydded, gallent fod yn destun ymchwiliad a chamau gorfodi gennym.

Cynigiwn hefyd ei gwneud yn ofynnol i gyflenwyr annomestig gyflwyno eu data am eu camau gweithredu i ni a byddwn yn monitro hyn yn ofalus ac yn ystyried newidiadau i'r drwydded yn y dyfodol o bosibl - yn ogystal ag ymchwiliadau posibl.

### Cyfryngwyr trydydd parti - cynllun achredu newydd

Cafwyd camau yn ddiweddar i ddatblygu codau ymarfer ac ymestyn codau presennol sy'n hunanreoleiddio rôl broceriaid yn y farchnad ynni busnes. Bydd ein cynnig i gyflwyno cynllun achredu newydd yn cefnogi'r rhain ac yn sicrhau bod cydymffurfio â'r codau hyn yn golygu rhywbeth i gwsmeriaid busnes. Credwn hefyd fod elfennau allweddol y dylid eu cynnwys ym mhob cod i helpu i ddiogelu defnyddwyr - megis gweithdrefnau monitro a chwyno ar gyfer achosion o ddiffyg cydymffurfio. Mae ein dogfen ymgynghori yn nodi'r hyn y dylai'r codau ymarfer ei gynnwys yn ein barn ni.

Hefyd, am nad oes gennym bwerau ar hyn o bryd i reoleiddio broceriaid (neu gyfryngwyr trydydd parti) yn uniongyrchol, rydym wedi gofyn i'r llywodraeth roi mwy o bwerau i ni orfodi yn erbyn achosion o gamwerthu yn y farchnad fusnes. Rydym hefyd yn cynnig amod trwydded newydd a fydd yn rheoleiddio sut mae cyflenwyr busnes annomestig a'u cynrychiolwyr yn rhyngweithio â chwsmeriaid busnes.

### Gwella Safonau Ymddygiad

Ar hyn o bryd nid oes gan gyflenwyr busnes lawer o reolau fel rhan o'u trwydded gyflenwi. Rydym am gael Safonau Ymddygiad cadarnach ac ehangach er mwyn gwella ymddygiad cyflenwyr a rhoi mwy o hyder i ddefnyddwyr yn eu cyflenwr ynni. Ein cynnig yw eu gwneud yn orfodol drwy eu hymgorffori mewn amod trwydded i bob cyflenwr.

### Y camau nesaf

Caiff ein cynigion manwl eu cyhoeddi ym mis Tachwedd 2011 ar gyfer ymgynghoriad. Rydym yn ceisio barn ar y cynigion hyd at 15 Chwefror 2012. Os cânt eu derbyn, ein gobaith yw dechrau gwneud newidiadau o 2012. Ein gobaith yw cyflwyno achrediad Ofgem ar gyfer Codau Ymarfer trydydd parti cyn gynted â phosibl.

### Rhagor o wybodaeth

Mae manylion llawn ein cynigion wedi'u nodi yn yr 'Adolygiad o'r Farchnad Fanwerthu - Cynigion Annomestig' ar wefan Ofgem.

Ar gyfer ymholiadau cyhoeddus, cysylltwch â'r:

| | | |
|---|---|---|
| **Tîm Materion Defnyddwyr** | 020 7901 7295 | ebost: consumeraffairs@ofgem.gov.uk |

Ar gyfer ymholiadau gan y cyfryngau, cysylltwch â:

| | | |
|---|---|---|
| **Lydia Fitzpatrick, Senior Communications Manager** | 020 7901 7419 | ebost: lydia.fitzpatrick@ofgem.gov.uk |
| **Chris Lock, Senior Press Officer** | 020 7901 7225 | ebost: chris.lock@ofgem.gov.uk |